

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 49/2015

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o Broses Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid - Crynodeb Gweithredol yr Adroddiad

**Gwerthusiad o Broses
Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio
Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid
Crynodeb Gweithredol yr Adroddiad**

Awdur yr Adroddiad: Steven Donbavand / Wavehill Ltd

Eiddo'r ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru.

I gael gwybodaeth bellach cysyllter â:

Jane Richards

Llywodraeth Cymru

Cathays Park

Cardiff

CF10 3NQJ

Ffôn: 02920 823781

Ebost: regenerationpolicy@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 15 Medi 2015

ISBN: 978-1-4734-4626-7

Hawlfraint y Goron



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

1. 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' yw fframwaith polisi adfywio cyfredol Llywodraeth Cymru. Gweinyddir holl raglenni Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid gan isadran Cartrefi a Lleoedd Llywodraeth Cymru. Mae chwe rhaglen fuddsoddi ar wahân yn fframwaith polisi Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, ond canolbwyntia'r gwerthusiad hwn ar raglen flaenllaw Targeddu Buddsoddiad mewn Adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Dyfarnwyd £100m o gyllid cyfalaf i 11 ardal gan y rhaglen, a fydd yn cael ei wario tros gyfnod o 3 blynedd. Mae wedi canolbwyntio ar Ganol Trefi, Cymunedau Arfordirol a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf difreintiedig. Dewisir prosiectau Targeddu Buddsoddiad mewn Adfywio er mwyn gwyrddroi methiant y farchnad trwy adfywio gweddnewidiol yn seiliedig ar leoedd a gyflawnir gan bartneriaethau lleol.

Nodau'r astudiaeth

2. Mae'r astudiaeth hon yn gwerthuso proses bresennol Targeddu Buddsoddiad mewn Adfywio. Felly, nid yw'r ymchwil yn ystyried *canlyniadau* Targeddu Buddsoddiad mewn Adfywio, ond yn canolbwyntio'n hytrach ar ddylunio, rheoli a chyflawni'r rhaglen.

3. Edrychodd yr astudiaeth yn arbennig ar:

- Adolygu dyluniad y rhaglen
- Adolygu'r gwaith o sefydlu'r Rhaglen a'i rhoi ar waith
- Adolygu strwythurau a modelau cyflawni'r prosiect
- Dysgu gwersi er mwyn llywio datblygiad rhaglenni i'r dyfodol:

Methodoleg

4. Ystyriwyd mai dull ansoddol oedd yn briodol, gan fod sawl agwedd ar yr ymchwil hon yn archwiliol ac roedd yr ymchwil yn ymdrin â rhai themâu cymhleth oedd yn haeddu disgrifiad sy'n newid pwyslais. Roedd tri cham i'r ymchwil:

- a. Adolygiad o'r ddogfennaeth allweddol
- b. Datblygu Fframwaith Gwerthuso
- c. Cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid

5. Siaradodd yr ymchwilwyr gyda 54 o randdeiliaid yn ystod yr haf 2015, naill ai mewn grwpiau bach neu drwy gyfweiliadau un-i-un. Cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Roedd yr ymchwil yn cwmpasu:

Rhanddeiliaid mewnol:

- Aelodau tîm arweinyddiaeth Is-adran Cartrefi a Lleoedd Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru o adrannau eraill (5 cyfweiliad).
- Rheolwyr Adfywio Is-adran Cartrefi a Lleoedd Llywodraeth Cymru (9 cyfweiliad).

Rhanddeiliaid allanol:

- Staff awdurdodau lleol a'u partneriaid a gafodd cyllid Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (10 ymweliad (29 unigolyn) ac 1 cyflwyniad ysgrifenedig).
- Cynrychiolwyr awdurdodau lleol a fu'n aflwyddiannus yn y broses Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio ond a gafodd ddyfarniadau llai o faint dan y themâu 'Trechu Tlodi' a 'Gwledig' (8 cyfweiliad).

Canfyddiadau

6. Lluniodd yr ymchwiler y canfyddiadau canlynol:

Deall y rhaglen

- Er y deallir yn dda'r egwyddorion sydd wrth wraidd Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch pa fentrau penodol y mae enw Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn berthnasol iddynt y tu allan i broses flaenllaw Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio.

Dull â ffocws yn seiliedig ar leoedd

- Teimlai llawer o randdeiliaid allanol fod y toriadau yn y gyllideb wedi creu angen am ddull mwy targedig a welir gyda Thargedu Buddsoddiad mewn Adfywio.
- At ei gilydd, cafwyd gwerthfawrogiad ymhlith y rhanddeiliaid allanol fod gwariant a chanddo ffocws yn galluogi ar gyfer dull mwy holistaidd a gweddnewidiol.
- Fodd bynnag, teimlai rhai rhanddeiliaid mewnol y gallai cronfeydd adfywio fynd ymhellach o'u defnyddio'n dactegol mewn symiau llai o faint. Dadleuodd y rhanddeiliaid hyn y gallai fod o fantais cadw swm bach o arian o'r neilltu er mwyn galluogi Rheolwyr Adfywio i ymateb i gyfleoedd yn y farchnad neu atal methiant y farchnad.

Egwyddorion a ddefnyddir i ddyrannu cyllid

- Yn fras, cefnogodd y rhan fwyaf o randdeiliaid allanol y broses ddyrannu fwy tryloyw a gwrthrychol y gwnaeth Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid esgor arni ond apeliai dirprwyo'r broses gwneud penderfyniadau i gyrrff rhanbarthol at lawer o randdeiliaid hefyd.
- Derbyniodd nifer fawr o randdeiliaid allanol yr egwyddor o gyfeirio gwariant adfywio at 'gyfleoedd' yn ogystal ag 'angen', ond roedd gan rai o'r rhanddeiliaid mewnol amheuan o ran a oedd Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid wedi cyflawni'r cydbwysedd cywir.

- Teimlai rhai awdurdodau lleol oedd yn gyfrifol am ardaloedd gwledig mawr fod y premiwm a roddwyd ar 'gyfleoedd' wedi'u rhoi dan anfantais.

Y broses ymgeisio ac asesu

- Nododd y rhanddeiliaid mewnol y byddent wedi hoffi cael gwell gwybodaeth o ran sut roedd y prosiectau arfaethedig yn gysylltiedig â meysydd polisi eraill, naill ai trwy gael amser i ymgynghori gyda chydweithwyr neu drwy gael rhagor o fanylion yn y ddogfennaeth ymgeisio.
- Roedd y broses ymgeisio dau gam yn boblogaidd mewn egwyddor, ond teimlai llawer o rhanddeiliaid allanol fod y pwysau cystadleuol wedi arwain at ymhél mwy â Cham Un nag y bwriadwyd.
- Croesawyd lefel y cynllunio oedd yn ofynnol yng Ngham Dau gan brosiectau oedd wedi cael symiau mawr o gyllid ond teimlwyd ei fod yn anghymesur o ran y rheiny gafodd symiau llai o faint. Teimlai'r rhanddeiliaid mewnol oedd ynghlwm â'r broses asesu fod lefel y manylder a ddarparwyd gan ymgeiswyr wedi bod o gymorth wrth asesu'r ceisiadau.
- Hoffai'r rhanddeiliaid fod wedi cael mwy o amser i gwblhau'r lefel gynllunio oedd yn ofynnol yng Ngham Dau, yn enwedig o gofio'r newidiadau i raddfa a ffocws y ceisiadau.
- Cafwyd amgyffrediad fod y blaenoriaethau gwleidyddol newidiol yn Llywodraeth Cymru wedi llywio'r broses asesu.
- Nid oedd rhai rhanddeiliaid yn deall y rhesymeg y tu cefn i ddyfarnu cronfeydd yn rhannol i nifer annisgwyl o fawr o bartneriaethau lleol.

Cynllunio

- Roedd rhai o'r cynlluniau prosiect a wnaed yn ystod y broses ymgeisio'n cynnwys nifer fawr o elfennau anhysbys a bras amcangyfrifon.
- Gwelwyd gwrthdaro rhwng ffurfio cynllun y gellir gweithredu arno yn y cam ymgeisio ac ysgrifennu dogfen a allai ennill y wobr.

- Adroddodd rhai rhanddeiliaid ar 'deimlad da' yn yr ardal ar ôl i'r dyfarniad gael ei ennill. Teimlai'r rhanddeiliaid hyn y gallai fod budd mewn galluogi rhagor o amser i bartneriaethau lleol ecsbloetio'r momentwm hwn ymhellach ac, o bosibl, creu partneriaethau ychwanegol neu ddenu buddsoddiad pellach.
- Yn gyffredinol, byddai partneriaethau lleol yn ffafrio proses gynllunio fwy estynedig ac arweiniol.

Rheoli prosiectau

- Teimlai'r rhanddeiliaid allanol fod y gofynion gweinyddol wedi bod yn ormod, yn enwedig i'r prosiectau a gafodd dyfarniadau cymharol fach.
- Teimlwyd yn rhannol i'r gwaith papur fod yn ormod oherwydd natur hanfodol gymhleth prosiect targedu buddsoddiad mewn adfywio, ond adroddodd y rhanddeiliaid hefyd fod y newidiadau i'r gofynion adrodd wedi creu gwaith ychwanegol.
- Gwaethygydd y baich gweinyddol oherwydd y toriadau yng nghyllidebau'r awdurdodau lleol ac roedd dryswch ynghylch a allai rheolwyr a gweinyddwyr prosiectau gael eu cyflogi gan ddefnyddio arian Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio.
- Credai'r rhan fwyaf o rhanddeiliaid fod mesurau cynnyrch y gwerthusiad yn briodol ond teimlai rai ohonynt y gallai'r ffocws ar gynnyrch golli canlyniadau mwy ansoddol a methu ystyried cyd-destun a ffactorau lliniarol.
- Roedd teimlad nad oedd y broses targedu buddsoddiad mewn adfywio'n annog arloesedd, ond y gallai gofynion atebolrwydd gormodol rwystro dulliau arloesol.
- Gofynnodd partneriaethau lleol am fwy o annibyniaeth i newid manylion eu prosiectau.

Gweithio mewn partneriaeth

- Disgrifiodd y rhanddeiliaid allanol bartneriaethau a ffurfiwyd neu a gryfhawyd yn sgil eu hymwneud â Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, yn enwedig rhwng adrannau awdurdodau lleol. Cymdeithasau tai oedd y partner allanol a grybwyllwyd fwyaf.
- Mae lle i arloesi ymhellach yn y mathau o bartneriaethau sy'n cael eu ffurfio, yn enwedig gyda darparwyr gwasanaeth.
- Cafwyd barnau cymysg ymhlith y rhanddeiliaid ynghylch a ddylid annog partneriaethau adfywio rhwng awdurdodau lleol.
- Mae'n amlwg y gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran cydlynu Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid gyda meysydd polisi eraill ar lefel genedlaethol, ond roedd amgyffrediad yn parhau y gellid gwella hyn, yn enwedig mewn perthynas â rhaglenni dyfarnu eraill.